# DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL AR GYFER GWEITHFANNAU CYFANREDOL RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU A DE CYMRU - ADOLYGIAD 2IL

## DATGANIAD O GYDWEITHREDU IS-RANBARTHOL IS-RANBARTH DE-ORLLEWIN CYMRU

## DATGANIAD SEFYLLFA

TACHWEDD 2023

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (paragraff 5.14.10) yn nodi bod sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau yn fater strategol sy'n chwarae rôl ategol sylfaenol o ran cefnogi datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau. Dylai pob awdurdod cynllunio lleol sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad priodol at ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU am fwynau sylfaenol sy'n adlewyrchu natur a graddau'r adnoddau yn yr ardal a'u defnydd gorau a mwyaf priodol, yn amodol ar ystyriaethau amgylcheddol a chynllunio eraill perthnasol. Ar gyfer agregau, dylid gwneud hyn o dan aegis Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru, a'u rôl yw darparu trosolwg rhanbarthol o'r cyflenwad a'r galw a thrwy'r fframwaith a ddarperir gan y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau.

1.2 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru – Ail Adolygiad (Datganiad Technegol Rhanbarthol 2) (Medi 2020) yn nodi'r dosraniadau angenrheidiol ac unrhyw ddyraniadau angenrheidiol ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol ond hefyd ar lefel is-ranbarthol. Mae hyn er mwyn caniatáu i ardaloedd is-ranbarthol wneud addasiadau mewn dosraniadau o fewn yr is-ranbarthau hynny os yw ymchwiliad manylach gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dangos y gellir cyfiawnhau addasiadau o'r fath.

1.3 I'r perwyl hwnnw, mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol gael eu paratoi, ar y cyd, gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol o fewn pob is-ranbarth Datganiad Technegol Rhanbarthol (fel y'i diffinnir gan Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol neu Gynllun Datblygu Strategol. Unwaith y cytunir arno, bydd Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol yn parhau i fod ar waith nes iddo gael ei ddisodli gan ofynion adolygiadau o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn y dyfodol, neu fod gwybodaeth newydd yn cael ei chyflwyno sy'n cyfiawnhau newid.

1.4 Y ddogfen hon yw'r datganiad sefyllfa ar gyfer Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol Is-ranbarth De-orllewin Cymru mewn perthynas â thywod a graean o'r tir.  Mae'r Is-ranbarth yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion.

## 2. Dosraniadau a Dyraniadau Datganiad Technegol Rhanbarthol 2

2.1 Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn nodi y bydd pob Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol, yn ddiofyn, yn cadarnhau bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol o fewn is-

ranbarth Datganiad Technegol Rhanbarthol penodol yn derbyn y dosraniadau unigol ar gyfer agregau ar gyfer ardaloedd eu Hawdurdod unigol, fel y nodir yn y tabl isod, ac felly y bydd gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr is-ranbarth hwnnw yn ei gyfanrwydd yn cael eu bodloni (o leiaf).

2.2 Fodd bynnag, mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn cydnabod y gall Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol, mewn amgylchiadau eithriadol, nodi patrwm cyflenwi amgen sy'n cyflawni gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr is-ranbarth penodol hwnnw mewn ffordd wahanol. Gall amgylchiadau o'r fath godi naill ai pan na all un neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn yr is-ranbarth fodloni gofynion sylfaenol eu dosraniadau a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol neu lle nodir patrwm cyflenwi amgen, cyraeddadwy a mwy cynaliadwy drwy gydweithio rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol dan sylw.

2.3 O ran darparu tywod a graean, rhaid nodi bod yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Datganiad Technegol Rhanbarthol 1) wedi awgrymu y byddai gwerth mewn datblygu dull cyfun o ddosraniadau a dyraniadau yn y dyfodol rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Er bod Sir Gaerfyrddin mewn is-ranbarth ar wahân (oherwydd y farchnad ar gyfer creigiau mâl yn ardal Abertawe yn bennaf), argymhellir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 y dylai'r trefniadau cydweithio hyn [a awgrymir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 1] barhau, o ran tywod a graean. Felly, mae dull ar y cyd yn cael ei ddilyn gan Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu'r gofyniad dyrannu ar gyfer 3.626 miliwn tunnell dros y cyfnod hyd at 2038.

2.4 Mae'r tabl isod yn nodi dosraniadau a dyraniadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer tywod a graean fel y nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Is-ranbarth De-orllewin Cymru (gan gynnwys Sir Gaerfyrddin).

**Cyfrifo Dyraniadau sy'n Ofynnol ar gyfer Agregau Tywod a Graean o'r Tir – Is-ranbarth De-orllewin Cymru (o Dabl 5.5, Datganiad Technegol Rhanbarthol 2)**

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Dosraniad Blynyddol Newydd ar gyfer tywod a graean (mt) | Cyfanswm y Dosraniad Sydd ei Angen dros 22 mlynedd | Cronfeydd wrth gefn presennol a ganiateir ar ddiwedd 2016 mewn mt | Isafswm dyraniad sydd ei angen i fodloni'r ddarpariaeth ofynnol (mt) | Cronfeydd wrth gefn ychwanegol ar safleoedd segur, 2016 (mt) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 0.188 | 4.136 | 0.510 | 3.626 | 0 |
| Sir Benfro | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 0.118 | 2.600 | 2.600 | 0.000 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.003 | 0.058 | 0.100 | Gweler y nodyn isod | 0.35 |

**Noder:** mae'n bosibl y gallai'r dyraniadau tywod a graean sydd eu hangen ar gyfer Ceredigion gael eu darparu, yn rhannol, o adnoddau mewn rhannau cyfagos o Sir Gaerfyrddin, er bod y sir mewn is-ranbarth gwahanol.

2.4 Mae'r tabl uchod yn dangos y bydd angen dyraniadau newydd i fodloni gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol dros y 22 mlynedd nesaf yng Ngheredigion, lle mae'r banciau tir presennol, a fynegir yn nhermau'r dosraniadau blynyddol newydd, eisoes yn llai na'r isafswm o 7 mlynedd.

2.5 Sir Gaerfyrddin yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru gyfan sydd ar hyn o bryd â gwarged o'r cronfeydd wrth gefn presennol a ganiateir o ran tywod a graean.  Nid oes gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n weddill unrhyw warged na diffyg ar gyfer darparu tywod a graean ond, yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd nad oes ganddynt unrhyw waith cynhyrchu na dosraniad ar hyn o bryd. Eithriad i hyn yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd (o ganlyniad i sicrhau na fydd ei ddosraniad yn fwy na'r banciau tir presennol) â digon o gronfeydd wrth gefn dim ond ar gyfer y cyfnod o 22 mlynedd sy'n ofynnol. Yn y dyfodol, bydd angen i ardaloedd cyfagos eraill gyflenwi'r gofyniad y mae'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn ei gyflenwi hyd yn hyn.

**3. Asesiad**

3.1  Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn nodi, os nad oes modd gwneud dyraniadau (neu ganiatadau newydd) i fynd i'r afael â'r diffyg, mae'n bosibl y bydd angen ystyried gweithio'n gydweithredol gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos yn yr un is-ranbarth (neu mewn is-ranbarth arall fel sy'n wir yn Sir Gaerfyrddin, fel y nodir uchod), er mwyn trosglwyddo rhywfaint o'r

ddarpariaeth (dosraniad) ofynnol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes modd penderfynu na all Ceredigion wneud dyraniadau i fynd i'r afael â'r diffyg ac felly mae'n rhy gynnar i drafod cydweithredu er mwyn trosglwyddo darpariaeth ofynnol o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.

3.2 Wrth fynd i'r afael â'r gwahanol fathau o ddyraniadau mwynau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, un dyraniad o'r fath a nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 yw 'Ardaloedd Chwilio'.  Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn diffinio'r rhain fel "*ardaloedd bras y credir bod ynddynt adnoddau mwynau o bwys masnachol ond nad oes sicrwydd ynghylch union faint o'r adnoddau hynny sydd i'w cael yno*."

3.3 O ganlyniad, fel mesur dros dro, mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Is-ranbarth De-orllewin Cymru (gan gynnwys Sir Gaerfyrddin) wedi cytuno ar ddull o nodi 2 ardal chwilio ar gyfer cronfeydd tywod a graean posibl yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol Diwygiedig.  Mae un o'r ardaloedd hyn ger ffiniau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac wedi ei nodi ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin.  Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â'r dull hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch Cynllun Adneuo Sir Gaerfyrddin.  Nid yw'r Cynlluniau Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer Sir Benfro a Cheredigion wedi cyrraedd cam mor bell â Chynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin ac felly nid yw'r dull ardaloedd chwilio wedi mynd drwy'r prosesau craffu ac ymgynghori angenrheidiol eto sy'n gysylltiedig â'r gofynion statudol o ran adrodd a chyhoeddi eu Cynlluniau Adneuo.

**4.  Y Sefyllfa Bresennol**

4.1 Nid yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Is-ranbarth De-orllewin Cymru wedi derbyn eu dosraniadau eto fel y nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2.  Yn y cyfnod interim, cyn llunio Datganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol, mae'r awdurdodau wedi cytuno i nodi ar eu mapiau cynigion 'ardaloedd chwilio' ar gyfer tywod a graean.  Fodd bynnag, oherwydd bod Cynlluniau Datblygu Lleol Diwygiedig y 3 awdurdod wedi cyrraedd gwahanol gamau o ran eu paratoi, hyd yn hyn mae'r dull hwn wedi bod yn destun ymgynghori statudol mewn perthynas â Chynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin yn unig.